Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
University Health Board

# Cyngor ar fynd adre o'r ysbyty ar ôl torri asgwrn 'torus buckle'

## Trawma ac Orthopedeg

---

- Mae eich plentyn wedi torri asgwrn 'torus buckle' yn ei arddwrn
- Dyma'r math mwyaf cyffredin o dorasgwrn ymysg plant ifanc
- Mae asgwrn ifanc yn dal yn feddal ac yn hyblyg iawn.  Am y rheswm hwn, yn hytrach na thorri'r asgwrn yn gyfan, mae crac bach neu ginc ar un ochr o'r asgwrn
- Mae'r math hwn o anaf yn gwella yn dda iawn gyda sblint hawdd i'w osod yn hytrach na chyda plaster anhwylus
- Mae'r rhan fwyaf o'r anafiadau hyn yn gwella yn berffaith iawn os yw'r claf yn gwisgo sblint am 3 wythnos
- Mae'n bwysig rhoi dos priodol o Parasetamol neu Ibuprofen i'ch plentyn i leddfu'r boen gan y bydd yn dal yn boenus am gyfnod byr, hyd yn oed ar ôl gosod y sblint
- Gellir tynnu'r sblint a'r gyfer mynd i'r bath neu i gael cawod heb berygl i'r toriad
- Ar ôl tair wythnos, os ydy'r arddwrn ychydig yn boenus neu'n stiff o'i symud, gellir ail-osod y sblint er mwyn gwneud y claf yn fwy cyffyrddus.  Gwnewch hyn am gyfnodau byr yn unig gan ei bod hi'n well eich bod yn dechrau defnyddio rhywfaint ar y fraich mor normal â phosibl o hyn ymlaen. Defnyddiwch boen laddwr fel Parasetamol neu Ibruprofen os oes angen
- Wedi dweud hynny, ar ôl tair wythnos, os ydy'r arddwrn yn dal yn boenus, wedi chwyddo neu dyw'r plentyn ddim yn awyddus i'w ddefnyddio, cysylltwch â'r Clinig Asgwrn i drefnu apwyntiad arall
- Os yw'r plentyn yn tynnu'r sblint cyn pen y tair wythnos ac yn ymddangos i fod yn gyffyrddus ac yn gallu defnyddio ei fraich, yna does dim rheswm i'w orfodi i wisgo'r sblint am y tair wythnos llawn.
- Mae'n well osgoi chwaraeon a chwarae gwyllt wrth wisgo'r sblint ac am yr wythnos neu ddwy gyntaf ar ôl ei dynnu

Os oes gennych unrhyw bryderon neu bryderon ar ôl cael eich rhyddhau o'r ysbyty, cysylltwch â: 01633 234403/234404. Mae hwn yn wasanaeth dydd Llun i ddydd Gwener a byddwn yn ceisio cysylltu â chi cyn gynted â phosibl. Fodd bynnag, os yw'n argyfwng, ewch yn ôl i'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys i gael rhagor o gyngor / triniaeth



**"Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/ This document is available in English"**